

Cyfarfod Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl (*SPNAB*)

Cofnodion

11 Mehefin 2018 – Tŷ Hywel, Adeilad Cynulliad Cymru,
Bae Caerdydd

Presennol:

Daniel Groves (DG)	Cadeirydd (Annibynnol)
Katie Dalton (KD)	Cymorth Cymru
Naomi Alleyne (NA)	CLILC
Cheryl Emery (CE)	Cynrychiolydd SPIN
Philip Howells (PH)	Housing Leadership Cymru
Harry McKeown (HM)	Cynrychiolydd CHC
Frances Beecher (FB)	Cadeirydd Gweithgor Llywodraethiant
Michelle Church (MC)	Cadeirydd Grŵp Cyllid Strategol ac Ymchwil
Helen Jones (HJ)	Grŵp Cyllid Strategol ac Ymchwil
Keiron Montague (KM)	Aelod Annibynnol
Claire Marchant (CM)	Cynrychiolydd ADSS
Anita Evans (AE)	Cynrychiolydd RCC
Emma Williams (EW)	Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitemau 3 a 4 yn unig)
Angharad Rogers (AR)	Llywodraeth Cymru
Paul Webb (PW)	Llywodraeth Cymru
Julie Llewellyn (JL)	Llywodraeth Cymru

Hefyd yn bresennol:

Rebecca Evans (RE)	Y Gweinidog dros Dai ac Adfywio (yn bresennol ar gyfer eitemau 3 a 4 yn unig)
Rhodri Johnson (RJ)	Prifysgol Abertawe
Lewis Yearsley (LY)	Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Diana Binding (DB)	Gwasanaeth Prawf
Josie Smith (JS)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Helen Northmore (HN)	Annibynnol
Mansel Aylward (MA)	GIG
Sarah Rhodes (SR)	Llywodraeth Cymru

Nodyn	Gweithred
1. Croeso a Chyflwyniadau	
<p>Cyflwynodd a chroesawodd y Cadeirydd aelodau newydd i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Keiron Montague – Aelod annibynnol - Anita Evans – cynrychioli RCC - Harry McKeown – Cynrychioli CHC 	
2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi	
<ul style="list-style-type: none"> • Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir. • Ceir diweddariad ar weithredoedd o'r cyfarfod diwethaf ar ddiwedd y cofnodion. 	
3. Hyblygrwydd Ariannu: Papur Trafod	
<ul style="list-style-type: none"> • Yn ystod y cyfarfod diwethaf cydnabuwyd y bydd y posibilrwydd y caiff y grant EIPS ei gyflwyno yn effeithio ar sefydliadau mewn ffyrdd gwahanol, a chydabuwyd gan y Cadeirydd nad oes gan y Bwrdd un farn gytûn. Felly, gofynnwyd i aelodau gyflwyno barn y sefydliadau/grwpiau y maent yn eu cynrychioli, yna defnyddiodd y Cadeirydd y rhain i lunio papur i'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio gan gynnwys barn gyffredinol wedi'i chrynhai ar ran y Bwrdd. • Nododd FB ei bod yn teimlo nad yw'r papur yn cynrychioli barn gytbwys o'r aelodau. Ar ben hynny, teimlir bod llais tai/digartrefedd yn cael ei ddistewi ac mae wedi'i siomi gan y diffyg cyd-gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r polisi o amgylch hyn. • Cytunodd KD, gan nodi bod y cyfathrebu wedi bod yn wael a bod negeseuon cymysg yn cael eu derbyn gan wleidyddion a swyddogion. Ymddengys mai SPNAB yw'r unig lwybr lle y gellir cyfleu pryderon ynghylch y cynnig. • Nododd NA fod y papur, yn ei barn hi, yn cynrychioli barn gytbwys, ond ei bod wedi anfon diwygiadau awgrymedig at y Cadeirydd ar wahân. • Gofynnodd FB a gynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ar gyfer y prosiect hyblygrwydd ariannu ac a fydd yn cael ei rannu? Dywedodd PW mai rôl y tîm Hyblygrwydd Ariannu fyddai cynnal hyn ond nid oedd yn sicr o ran yr amseru. Byddai angen iddo wirio hyn gyda'r tîm Hyblygrwydd Ariannu. • Ni chytunodd pawb ar y Bwrdd fod y papur yn cynrychioli barn gytbwys, felly cytunwyd y gellid rhannu'r holl ymatebion a gyflwynwyd i'r Cadeirydd gydag aelodau'r Bwrdd. Bydd yr ymatebion hefyd yn cael eu cynnwys yn y papur i'r Gweinidog ei ystyried. Cytunwyd, yn amodol ar fân ddiwygiadau, y cyflwynir y papur i'r Gweinidog gan y Cadeirydd ar ran y 	<p>PW i wirio statws yr EIA</p> <p>Yr ysgrifenyddiaeth i ddsbarthu'r holl ymatebion i'r Bwrdd</p>

<p>Bwrdd. Ymunodd y Gweinidog dros Dai ac Adfywio â'r cyfarfod ar gyfer rhan hon yr eitem agenda.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd KD fod y sector wedi symud ymlaen o'i safbwynt gwreiddiol (grant SP a glustnodwyd yn unig) ac mae wedi derbyn bod angen gwneud rhai newidiadau i'r strwythur presennol yn niddordebau gorau'r defnyddwyr gwasanaeth. Cynigiwyd strwythur grant amgen gan y trydydd sector, y sector tai a staff rheng flaen Awdurdodau Lleol; sef cyfuno'r grant SP â'r grant digartrefedd (ac o bosib ariannu'r dyfodol ar gyfer llety â chymorth tymor byr) i ddod yn un 'grant yn ymwneud â thai'. • Mae'r strwythur amgen grant yn ymwneud â thai wedi derbyn cefnogaeth gan fwyafrif y Bwrdd, gan gynnwys CLILC. Cadarnhaodd NA er bod CLILC yn cefnogi'r cynnig grant EIPS, mae'n agored i roi ystyriaeth i'r strwythur grant amgen a gynigir. Cytunodd HM y byddai'r cynnig grant amgen yn lleddfu ychydig o'r ofnau/ansicrwydd yn y sector cymdeithasau tai y mae'r cynnig EIPS presennol yn eu cyflwyno. • Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo y dylid derbyn yr argymhelliad yn yr Adroddiad PAC i ystyried y strwythur grant amgen. Fodd bynnag, mae hefyd angen i'r Gweinidog gysylltu â meysydd polisi eraill yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag EIPS, gan dynnu sylw at y toriadau EIPS ar draws portffolios Gweinidogion. • Awgrymwyd mai un o'r prif fuddion a nodwyd ar gyfer cyflwyno EIPS yw lleihau achosion o ddyblygu gwasanaethau, fodd bynnag teimlodd y Bwrdd fod tystiolaeth i ddangos nad oes unrhyw ddyblygu yn y system bresennol. • Ail-bwysleisiodd FB y diffyg cyd-gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu'r cynigion hyn. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n codi'r mater hwn gyda chydweithwyr ar draws portffolios. • Nododd DG am ei fod yn aelod annibynnol ei fod yn niwtral pa bynnag penderfyniad a wneir, ond nid yw'n ymddangos bod digon o dystiolaeth i gefnogi'r naill opsiwn neu'r llall. • Cytunodd y Gweinidog fod angen gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn gofyn am farn partïon eraill sy'n rhan o'r broses ac yn aros am ganlyniadau'r gwerthusiad annibynnol. Yna gwneir penderfyniad ar y cyd rhwng Gweinidogion perthnasol. 	
4. Cyflwyniad SAIL gan Rhodri Johnson	
<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddodd RJ gyflwyniad ar y prosiect SAIL er mwyn egluro nodau ac amcanion y prosiect. • Nod y prosiect yw archwilio'r cyfraniad y gall cysylltu data ei wneud i'r broses o werthuso SP trwy asesu'r ffyrdd y mae'r ffordd y caiff y gwasanaeth iechyd ei ddefnyddio yn amrywio yn ôl nodweddion y bobl sy'n cael mynediad i wasanaethau Cefnogi Pobl. 	

<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i'r prosiect gael ei gynnal am 4 blynedd ac mae yn y cyfnod cynnar o hyd. Ar hyn o bryd mae'r prosiect wedi casglu data gan 19 o'r 22 o Awdurdodau Lleol a bydd y dadansoddwr yn cynnal gwaith dadansoddi cynnar erbyn diwedd mis Mehefin i'w gyhoeddi yn hwyrach yn 2018. • Gofynnodd NA am y ffordd mae'n cysylltu â'r data canlyniadau. Cadarnhaodd RJ, yn ddelfrydol, y dymument edrych ar y ddwy set data gyda'i gilydd ond nid yw'n flaenoriaeth ar hyn o bryd. Ychwanegodd KD fod ganddynt ddiddordeb mewn gwneud hyn ond byddai angen gweld beth sy'n digwydd o ran y fframwaith canlyniadau yn sgil EIPS. • Gofynnodd KM a yw'r canlyniadau'n ystyried oedran a salwch yn ymwneud ag oedran. Nid ar hyn o bryd, ond cydnabu KD fod SP yn darparu gwahanol fathau o ddarpariaeth; mae cymorth a ddarperir i bobl hŷn a'r sawl ag anableddau dysgu'n wahanol i'r cymorth a ddarperir i bobl ddigartref neu i bobl mewn perygl o fod yn ddigartref. Rhoddir ystyriaeth i'r grwpiau cleient gwahanol gan y grŵp Ymchwil a Gwerthuso. • Gofynnodd HM a fydd modd i'r data ddangos cost unedau a gwerth am arian. Mae potensial yn y dyfodol i adeiladu ar y data a'r allbynnau presennol. • Gofynnodd KM a yw'r sector iechyd wedi ymgysylltu â'r prosiect oherwydd byddai ei fewnbwn yn bwysig iawn. Cadarnhaodd KD nad oes cynrychiolydd iechyd yn rhan o'r Grŵp Llywio Ymchwil a Gwerthuso ar hyn o bryd; fodd bynnag caiff aelodaeth y grŵp ei hadolygu yn ei gyfarfod nesaf. 	
<p>5. Diweddariad ar Ddigwyddiadau Ymgysylltu Llety â Chymorth Tymor Byr</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Esboniodd PW gyhoeddiad Llywodraeth y DU i gyflwyno system newydd i ariannu tai â chymorth a thai gwarchod o 2020. Bydd hyn yn golygu y bydd yr holl ariannu ar gyfer llety â chymorth tymor byr, lle y bwriedir symud ymlaen, yn cael ei drosglwyddo y tu allan i'r system les i gronfa arian cyfyngedig ym Mloc Cymru. • Cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu arfarnu opsiynau yn ystod mis Ebrill/Mai 2018 er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i gasglu eu barn ar y 5 opsiwn posib ar gyfer ariannu llety â chymorth tymor byr yn y dyfodol. Denodd y digwyddiadau bresenoldeb da wrth i tua 130 o bobl o amrywiaeth o sefydliadau/sectorau eu mynychu. • Mae'r pryderon allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd darpariaethau a fydd yn symud o hawl lles yr unigolyn a arweinir gan alw i drefniant arian cyfyngedig a gomisiynwyd. • Yn ogystal â'r digwyddiadau i randdeiliaid mae PW hefyd wedi ymgynghori â Housing Leadership Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru. Hoffai drafod y materion hyn gydag aelodau Awdurdodau Lleol yn ogystal. • Nid oes unrhyw atebion clir yn cael eu rhoi ynghylch y materion gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd. Disgwylir penderfyniad ym 	<p>NA i drefnu cyfarfodydd gydag aelodau Awdurdodau Lleol</p>

<p>mis Gorffennaf (erbyn toriad yr haf).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfnod nesaf yn y broses yw datblygu cyngor i'r Gweinidog ar yr opsiynau a drafodwyd gyda rhanddeiliaid. • Dymunodd KD ddiolch i dîm SP Llywodraeth Cymru am ei ddull cyd-gynhyrchiol o ran datblygu fframwaith ariannu newydd ar gyfer llety â chymorth tymor byr. 	
<p>6. Diweddariadau</p>	
<p>RCC Er mwyn deall y cysylltiadau rhwng RCC, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (<i>RPB</i>) a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (<i>PSB</i>) a chydweithredu, gofynnwyd i'r RDC gynnal ymarferiad cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Blaenoriaethau'r RPB/PSB a sut maent yn cysylltu â blaenoriaethau SP/RCC • Mapio strwythurau llywodraethiant • Cysylltiadau rhwng y Byrddau <p>Caiff y canfyddiadau eu rhannu gyda RCC i'w hystyried ac yna gyda Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.</p> <p>SPIN</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhaliwyd y cyfarfod SPIN diwethaf ar 25 Ebrill a bu lawer o bobl yn bresennol. • Trafodwyd EIPS ac nid yw awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan o'r cynllun braenaru yn teimlo eu bod yn derbyn unrhyw wybodaeth am EIPS. • Sipsiwn a Theithwyr – Gofynnwyd i'r grŵp gynnal ymarferiad mapio i ddeall i ba raddau y mae timau SP ar draws pob Awdurdod Lleol yn diwallu anghenion y cymunedau hyn yn eu hardaloedd. • Mae system casglu data cysgu allan SHIN yn system casglu data aml-asiantaeth, Cymru gyfan. Y nod yw cynnwys Hyrwyddwyr StreetLink ym mhob Awdurdod Lleol i gyflenwi ymateb mwy cyson i atgyfeiriadau. • Cynllun Gweithredu Cysgu Allan - cyflwynwyd y cynllun i SPIN. Gofynnodd aelodau SPNAB am eglurhad o ran diben grŵp gorchwyl a gorffen newydd y clywyd y mae'n cael ei sefydlu o ran digartrefedd ymhlith pobl ifainc a tai yn gyntaf. Bydd Tamsin Stirling yn cyflawni darn o waith ar Ddigartrefedd ymhlith Pobl Ifainc a bydd yn gofyn i bob awdurdod lleol ddarparu'r data perthnasol. • Hoffai NA ddeall pa fath o gymorth y mae'n cael ei roi i ffoaduriaid ar hyn o bryd trwy wasanaethau Cefnogi Pobl. <p>Grŵp Llywodraethiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y dyddiad cau ar gyfer Adroddiad Adolygiad Blynyddol RCC yw diwedd mis Mehefin. Yna bydd y Grŵp Llywodraethiant yn 	<p>PW i gadarnhau diben y grŵp gorchwyl a gorffen</p> <p>Aelodau i fwydo yn ôl i NA ar gymorth i ffoaduriaid</p>

adolygu'r adroddiadau ac yn darparu crynodeb ar gyfer y cyfarfod SPNAB nesaf.

Grŵp Cyllid ac Ymchwil

- AR hyn o bryd nid oes unrhyw gynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd ar y grŵp o ganlyniad i ymddeoliad yr aelod blaenorol.
- Canolbwyntiodd trafodaethau ar fewnbwn y grŵp i'r papur hyblygrwydd ariannu ar gyfer SPNAB a'r adolygiad llety â chymorth.

CHC

- Mae CHC ar gychwyn y broses o ailwampio'r gynrychiolaeth ar RCC ac ar is-grwpiau SPNAB. Disgwylir i'r broses hon gael ei chwblhau tua diwedd yr haf, yn dilyn hynny y nod yw sicrhau safon uchel o gynrychiolaeth ar bob pwyllgor a grŵp.
- Etholwyd HM o Pobl Group yn Gadeirydd Rhwydwaith Cenedlaethol Tai â Chymorth a Darparwyr CHC, a gynhelir ar y cyd â Cymorth Cymru. Fel rhan o'r swyddogaeth hon, mae HM yn cynrychioli CHC ar SPNAB.

Cymorth Cymru

- Hyfforddiant PATH – mynychodd dros 1000 o bobl ac mae'n cael ei werthuso'n annibynnol. Yn ôl dadansoddi cychwynnol derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn. Ar hyn o bryd mae Cymorth mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru o ran y posibilrwydd o gael mynediad i ariannu ar gyfer cyfnod dau.
- Mae Cymorth yn derbyn ariannu gan Oak Foundation i gyflenwi prosiect ymchwil ddwy flynedd ar effaith ddynol ac effaith ariannol gwasanaethau Cefnogi Pobl yng Nghymru.
- Cynhaliwyd digwyddiad Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau ar 15 Mai gan gynnwys sesiynau ar leihau hunan-niwed; effaith cam-drin domestig ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau; niwed i'r ymennydd a achosir gan alcohol; y symudiad iechyd meddwl tosturiol; Rhaglen Allan o Waith.
- Cynhelir digwyddiad Tlodi a Diwygio Lles ar 11 Gorffennaf yng Nghaerdydd a bydd yn cynnal sesiynau ar ymchwil JRF ar dlodi yng Nghymru; effaith amodoldeb lles ar ddigartrefedd; datganoli pwerau Credyd Cynhwysol; a yw'n bosib cael system les dosturiol; ym mha ffordd mae sefydliadau wedi helpu pobl ifainc i ymdopi â Chredyd Cynhwysol; Tasglu'r Cymoedd a chyllidebu cyfranogol.
- Mae Cymorth yn parhau i hwyluso a chefnogi Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru newydd sy'n cynnwys darparwyr, landlordiaid cymdeithasol a chynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol. Yn ystod cyfarfod diweddar cafwyd cyflwyniad gan Crisis UK ar eu hastudiaeth Hyb Tai yn Gyntaf ar Tai yn Gyntaf yn Rhanbarth Dinas Lerpwl.

<p>Diweddariad ar Adroddiad WAO</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddodd Pac ei adroddiad ar Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru ar 18 Mai, gan wneud 13 o argymhellion. • Bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi ymateb swyddogol erbyn 2 Gorffennaf 2018. 	
<p>7. Y Gofrestr Risg</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Gofrestr Risg yn nodi'r risgiau allweddol a adnabuwyd gan SPNAB i'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae'r Gofrestr wedi'i diweddaru yn sgil datblygiadau polisi newydd ynghylch cymorth yn ymwneud â thai. Gofynnwyd i'r Bwrdd roi ystyriaeth i'r holl risgiau, cytuno ar y newidiadau a wnaethpwyd i ddisgrifiadau'r risgiau a'r sgoriau risg ac unrhyw weithredoedd angenrheidiol ychwanegol. 	<p>Dylid anfon yr holl sylwadau ar y newidiadau drwy e-bost at AR</p>
<p>8. Unrhyw Fater Arall</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd gan y Bwrdd, o ganlyniad i amseru penderfyniadau ar EIPS a SAR, gohirir y diwrnod datblygu a chaiff ei gynnal ddydd Iau 6 Rhagfyr. Cadarnheir y lleoliad yn nes at y dyddiad. • Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd mai hwn oedd cyfarfod olaf PH am ei fod yn ymddeol, a diolchodd i PH am ei gyfraniadau. 	
<p>9. Cyfarfod Nesaf</p>	
<p>Dydd Mercher 19 Medi yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Merthyr Tudful. Cynhelir y cyfarfod hwn ar gyfer aelodau Bwrdd SPNAB yn unig.</p>	

**Cofnod Gweithredoedd
Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl**

Dyddiad Adnabod y Weithred	Manylion y Weithred	Cyfrifoldeb	Statws
1. 8^{fed} Mawrth 2018	Hyblygrwydd Ariannu – LIC i gylchredeg y cylch gorchwyl ar gyfer ymarferiad gwerthuso'r rhaglen.	Ysgrifenyddiaeth LIC	Cwblhawyd Ebrill 2018
2. 8^{fed} Mawrth 2018	Hyblygrwydd Ariannu - LIC i ddsbarthu templed gyda'r comisiwn i dderbyn barn y Bwrdd ar Hyblygrwydd Ariannu a'r ymatebion a goladwyd yn rhan o bapur i'w anfon at y Gweinidog.	Ysgrifenyddiaeth LIC	Cwblhawyd Mehefin 2018
3. 8^{fed} Mawrth 2018	Cynrychiolydd RCC i ddod yn aelod parhaol o'r Bwrdd.	Paul Webb	Cwblhawyd Mai 2018. Bydd RDC enwebedig yn cynrychioli RCC. Mynychodd cyfarfod SNAB cyntaf ar 11 Mehefin 2018.
4. 8^{fed} Mawrth 2018	Cofnodion SPIN i'w cylchredeg i'r Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth LIC	Cwblhawyd Mehefin 2018. Wedi'u cynnwys gyda phapurau SPNAB ar gyfer cyfarfod 11 Mehefin.
5. 8^{fed} Mawrth 2018	Gofynnodd y Bwrdd am gyflwyniad ar Brosiect SAIL i'r grŵp.	Ysgrifenyddiaeth LIC	Cwblhawyd Mehefin 2018. Rhoddwyd cyflwyniad yn ystod cyfarfod SNAB ar 11 Mehefin.
6. 8^{fed} Mawrth 2018	Adnabuwyd bod angen diweddarw'r Gofrestr Risg am nad yw'n gyfredol.	Angharad Rogers	Diweddarwyd y Gofrestr Risg a'i darparwyd i'w hadolygu yng nghyfarfod SNAB ar 11 Mehefin 2018. Gofynnwyd i aelodau roi sylwadau drwy e-bost.

7. 8 ^{fed} Mawrth 2018	Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg bydd yr ysgrifenyddiaeth yn adnabod dewis iaith aelodau'r Bwrdd.	Ysgrifenyddiaeth LIC	Cwblhawyd Mehefin 2018. Anfonwyd ffurflen dewis iaith at aelodau. Cofnodir y dychweliadau gan LIC.